

CYNGOR TERF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR ADLONANT 15 IONAWR 2019

Presennol

Cadeirydd – Cyng E R Hughes

Presennol

R Thomas, J W Parry, E Lovgreen, K Richards , K Jones, A Hopcyn

1. Ymddiheuriadau

Cyng D L Jones

2. Datgan Buddiant Personol

Neb

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc) er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Dim

4. Adborth Digwyddiadau Nadolig a Goleuadau Nadolig

Noson Nadolig

Wedi bod yn llwyddiant mawr eleni gyda dorf mwyaf ers sawl blwyddyn . Band Ysgol Syr Hugh Owen yn wych ar y Maes a Cor yr Eglwysi . Perfformiadau pawb yn wych yn Seilo hefyd er bod un o'r ysgolin wedi canu un or caneuon cynulleidfaol – felly werth ceisio cael adborth cyn y noson o be mae nhw am ganu i arbed hynny

Band samba wedi bod yn llwyddiant mawr ond yn teimlo bod nhw angen mwy o sylw a **ceisio unai cau y prif ffordd o maes i Seilo neu lawr stryd y plas , Stryd Fawr ac yna i Seilo er mwyn rhoi gwell chwarae teg iddyn nhw**

Angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r ffaith bod rhywun wedi bod yno yn gwerthu nwyddau fel glowsticks etc ar y noson yn ddi ar wybod inni (ac yn amau yn ddi ar wybod i Cyngor Gwynedd , hefyd ar Noson Tan Gwyllt) angen gofyn i swyddog presenoli eu hunain flwyddyn nesaf gan bod ni ddim ishio pobl yn meddwl bod nhw yn rhan o'n digwyddiad ni

Wedyn creuodd hyn y syniad efallai fysa ni yn medru prynnu glow stick o ryw fath yn lle het sïon corn – **clerc i gael catalog erbyn y cyfarfod nesaf**

Goleuadau Nadolig

Adborth wedi bod yn wych

Cwpl o sylwadau teimlo bod ni angen rywbeth o amgylch yr un bespoke a bod angen pris i gario'r "festoon" at naill ollr i llall o'r "crosstreets"

Nodwyd bod angen **ail gofyn caniatâd busnesau Stryd Bangor er mwyn ceisio cael y festoon yn nol yno** gan bod yr Cross street yn edrych yn od ar ben ei hun

Nodwyd bod difrod dychrynlyd i'r prif goeden eto eleni – yn waeth na unrhyw flwyddyn arall ac **angen meddwl am ffordd gwell o gael tystiolaeth CCTV gan ystyried bod difrod yn digwydd yn y tywyllwch** a byddai CCTV gwynedd ddim o reidrwydd yn ddigonol . **Angen ail ofyn wrth CADW** os oes modd defnyddio'r balconi gan efallai mai y gwaith ffilmio oedd yn broblem eleni

Wedi derbyn cwyn bod rhai ddim yn ymwybodol o'r noson a penderfynwyd i'r clerc drafod a Digwyddiadau Caernarfon i ofyn am drefniant ffurfiol i hybu digwyddiadau ni – **y clerc i siarad efo Wayne** am hyn ac am gostau ehangach Facebook, ac hefyd i weld os allai neud rywbeth am y sgrin yn Gisda

5. Trefniadau Diwrnod Gŵyl Dewi

Nododdd y clerc bod dadorchuddio'r plac bellach yn digwydd ar Mawrth 1af hefyd

Rhaglen drafft

11.30 – 12.00 – seremoni dadorchuddio

12.15-12.30 ymgynull ar gyfer yr orymdaith

12.30 – 13.00 gorymdaith i'r Maes lle bydd pawb yn canu Calon Lan ac yna Dafydd Iwan yn perfformio a'r anthem

1.30 – 2.00 lluniaeth ysgafn i'r VIP's yn caffi Gisda

Ceisio gweld os oes modd i'r castell drefnu gitarydd yno eto i chwarae Yr Anthem eto

Gwahoddiad wedi mynd allan i'r Gwesteion anrhydeddus yn barod ond **dal angen gwahodd** Sian Thomas a merched Menna Thomas , Rhywun o Age concern (gan mai ei hen adeilad nhw fydd yn gartef i'r plac) , Cynrychilowyr o Chweched dosbarth Ysgol Syr Hugh Owen i chwarae rhan , rhywun o Pwyllgor Cymru A'r Ariannin

Dafydd Iwan eisoes wedi cytunno i chwarae

Angen Samba Band Ysgol Syr Hugh Owen i arwain yr orymdaith

Angen llogi Mr Urdd ar gyfer yr orymdaith

Holi i weld os ydi Alejandro Jones ar gael (yn amlwg dim ond os ydio yn y wlad beth bynnag

GOrffenodd y cyfarfod am 6.10

Arwyddwyd Dyddiad